# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 11 Gorffennaf 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad misol, dros yr wyth mlynedd diwethaf, o a) cynnyrch mewnwladol crynswth, a b) cynnyrch gwladol crynswth Cymru, a pha gymhariaeth y mae wedi'i gwneud gyda'r rhain yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon? (WAQ50194)

**Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Brian Gibbons):** Rhoddir dadansoddiad o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) sy'n cwmpasu'r wyth mlynedd ddiweddaraf sydd ar gael yn y tabl. Dim ond amcangyfrifon ar sail flynyddol sydd ar gael. Gwerth Ychwanegol Crynswth yw'r cyfrifon cenedlaethol cyffredinol sydd ar gael ar gyfer y gwledydd unigol o fewn y DU. (Defnyddiwyd y term Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar brisiau sylfaenol o dan y system cyfrifon cenedlaethol flaenorol.) Nid oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o Gynnyrch Gwladol Crynswth pob gwlad unigol o'r DU.

Cynyddodd y cyfanswm GYC yng Nghymru o 34 y cant rhwng 1999 a 2005. Gwelwyd cynnydd o 39% mewn digolledu cyflogeion, sef y rhan o'r GYC sy'n effeithio fwyaf uniongyrchol ar bobl yng Nghymru, dros yr un cyfnod. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 38 y cant yn yr elfen hon o GYC yng ngweddill y DU dros yr un cyfnod. Gwelwyd cynnydd o 36 y cant, 33 y cant a 34 y cant yng nghyfanswm GYC yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno dros yr un cyfnod.

**Gwerth ychwanegol crynswth yng Nghymru, yn ôl uned incwm (£miliwn)**

| | Digolledi cyflogeion | Gwarged gweithredol/incwm cymysg | Cyfanswm y gwerth ychwanegol crynswth |
|---|---|---|---|
| 1998 | 18,172 | 11,511 | 29,683 |
| 1999 | 19,142 | 11,453 | 30,595 |
| 2000 | 20,366 | 11,378 | 31,744 |
| 2001 | 21,581 | 11,835 | 33,416 |
| 2002 | 22,596 | 12,427 | 35,024 |
| 2003 | 23,844 | 13,270 | 37,115 |
| 2004 | 25,130 | 14,186 | 39,316 |
| 2005 | 26,523 | 14,344 | 40,867 |

Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol yr ONS

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Faint o swyddi sector preifat sydd wedi'u colli yng Nghymru dros yr wyth mlynedd diwethaf, a pha gymhariaeth y mae'r Gweinidog wedi'i gwneud gyda ffigurau blynyddol byd-eang? (WAQ50195)

**Brian Gibbons:** Caiff nifer fawr o swyddi sector preifat eu colli a'u creu bob blwyddyn yng Nghymru fel rhan o'r broses barhaus o ailstrwythuro deinamig sy'n gyffredin i bob economi ddatblygedig. Rhwng 2001 a 2004 (y cyfnod y mae amcangyfrifon ar gael ar ei gyfer), ar gyfartaledd, collwyd tua 107,000 o swyddi yn y sector preifat bob blwyddyn a chrëwyd tua 117,000.

Rhwng 1999 a'r flwyddyn tan fis Medi 2006, effaith net creu a cholli swyddi oedd cynnydd amcangyfrifedig o 85,000 (neu 9 y cant) yn y nifer y swyddi sector preifat yng Nghymru. Nid yw'n hawdd cael gafael ar ffigurau ar gyfer y byd yn ei gyfanrwydd, ond ar gyfer y DU, gwelwyd cynnydd o 5 y cant yn nifer y swyddi sector preifat dros yr un cyfnod.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cyfnod Sylfaen? (WAQ50186)

**Y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg (Carwyn Jones):** Rwy'n parhau yn gwbl ymrwymedig i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaenol o fis Medi 2008 a chyflenwi 'Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cyfnod Sylfaenol' a lansiwyd fis Rhagfyr diwethaf. Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi:

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Fframwaith Cyfnod Sylfaenol ar gyfer Dysgu Plant;
- Datblygu Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaenol;
- Cyhoeddi lleoliad 42 o ysgolion cychwyn cynnar ac ariannu safleoedd nas cynhelir a fydd yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaenol o fis Medi eleni;
- Darparu arian grant i bob awdurdod lleol er mwyn penodi Swyddog Hyfforddi a Chymorth i reoli'r broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaenol;
- Sicrhau bod dros £2.5 miliwn ar gael fel bod gan bob un o'r darparwyr blynyddoedd cynnar nas cynhelir a ariennir fynediad i o leiaf 10 y cant o amser athro cymwysedig;
- Dyfarnu grantiau i Dysgu drwy Dirweddau a'r Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu i weithio gydag ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol ar ddatblygu ac addasu'r amgylchedd dysgu awyr agored;
- Cydweithio ag Awdurdodau Addysg Lleol yn lleol ac ar lefel consortia er mwyn llunio rhaglen hyfforddi i helpu pob aelod o staff i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaenol;
- Datblygu strategaeth gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfnod sylfaenol a chyfleoedd gyrfa i'r gweithlu;
- Sefydlu Grŵp Rheoli Prosiect Cenedlaethol a strwythur cymorth i oruchwylio'r broses o roi'r Cyfnod Sylfaenol ar waith.

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed yn cael eu cefnogi i aros mewn addysg neu ddysgu seiliedig ar waith? (WAQ50187)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid darpariaeth 14-19 yng Nghymru a chyfleoedd pob person ifanc. Caiff hyn ei wneud drwy ymestyn dewis a hyblygrwydd; sicrhau llwybrau dysgu wedi'u teilwra'n unigol sy'n diwallu anghenion dysgwyr a darparu cyfleoedd a phrofiadau cyfoethocach a fydd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau fydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith.

Yr hyn rydym am ei gyflawni drwy'r Llwybrau Dysgu 14-19 yw sicrhau bod pob unigolyn 14-19 oed yn cael llwybr dysgu unigol unigryw gyda'r opsiynau sy'n gweddu orau i'w ddiddordebau, ei allu a'i arddulliau dysgu.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi gan y Gweinidog i newid y canllawiau sy'n ymwneud ag enwi ysgol? (WAQ50197)

**Carwyn Jones:** Nodir y gofynion statudol presennol sy'n ymwneud â newid enw ysgol yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, a ddaeth i rym ar 31 Hydref 2005.

Bu ymgynghori eang ar y rheoliadau hyn cyn iddynt gael eu trafod a'u cymeradwyo gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref 2005. Nid oedd galwad yn sgil yr ymgynghoriad i ddiwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â newid enw ysgol. O ystyried hyn, nid wyf yn bwriadu diwygio na diddymu'r darpariaethau hyn drwy ddeddfwriaeth bellach.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi canlyniad yr archwiliad o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n rhan o'r rhaglen waith ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn? (WAQ50189)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o Fyrddau Iechyd Lleol sydd wedi ymateb i'r archwiliad o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n rhan o'r rhaglen waith ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn? (WAQ50190)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Caiff y broses o fonitro gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Bobl Hŷn yng Nghymru ei chynnal drwy ddefnyddio Offer Archwilio Hunan Asesiad newydd ar y rhyngrwyd sy'n cyflwyno adroddiad ar gynnydd ar sail iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd ar gyfer pob ardal sirol. Mae ffurflenni blynyddol ar gyfer targedau a cherrig milltir 2006-07 bellach wedi'u cwblhau ar gyfer pob maes partneriaeth yng Nghymru. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau o'r archwiliad hwn ar wefan y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Bobl Hŷn (www.howis.wales.nhs.uk/oldernsf) yn fuan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu eiddo Cymdeithasau Tai gyda chawodydd mynediad gwastad ar gyfer yr henoed? (WAQ50183)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Leighton Andrews):** Roedd yn ofynnol i bob cartref newydd a adeiladwyd gan Gymdeithasau Tai yng Nghymru ers mis Gorffennaf 2005 gyrraedd y Safonau Cartrefi Gydol Oes a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree. Mae'r cysyniad o Gartrefi Gydol Oes yn ymwneud â darparu cartrefi sy'n hyblyg ac yn ymatebol i anghenion cyfnewidiol y deiliaid ac sy'n hygyrch i bawb gan gynnwys y rheini sydd â nam corfforol, sy'n oedrannus neu sydd â nam ar eu synhwyrau. Felly rhoddir cawod a bath ym mhob cartref newydd.

Mewn tai newydd, caiff y gawod ei rhoi ar y llawr daear/ lefel mynediad a chaiff ei chynllunio i'w defnyddio gan bobl sy'n cael trafferth symud neu sydd mewn cadair olwyn.

Rhoddir cawod a bath mewn fflatiau a byngalos hefyd ac mae gan fflatiau llawr daear a fflatiau a wasanaethir gan lifft ystafelloedd ymolchi sydd wedi'u cynllunio fel y gallant gael eu haddasu i gael eu defnyddio gan bobl sy'n cael trafferth symud neu sydd mewn cadair olwyn.

Darperir tai Gofal Ychwanegol neu Bobl Oedrannus Fregus sydd wedi'u cynllunio'n arbennig i ddiwallu anghenion pobl oedrannus, yn enwedig y rhai sydd angen lefel uchel o gymorth drwy fflatiau hunan gynhaliol annibynnol.

Caiff yr holl fflatiau eu hadeiladu i safonau cadair olwyn ac mae ganddynt gawod hygyrch i gadair olwyn gyda drws sy'n cysylltu â'r brif ystafell wely fel y gellir ychwanegu teclyn codi.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi'r Cynulliad o ran penderfyniadau Cynghorau Sir i gwtogi ar nifer y Cynghorwyr Cymuned? (WAQ50192)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Nid mater i'r Cynulliad yw hwn. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gosod dyletswydd ar brif awdurdodau i barhau i adolygu ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol cymunedol o fewn eu hardal.